

3 Ebrill 2024

Huw Irranca-Davies,
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN



Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,
Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Mae'r GWCT yn elusen gadwraeth sy'n seiliedig ar wyddoniaeth sy'n gweithio gyda ffermwyr a rheolwyr tir eraill i sicrhau bioamrywiaeth a budd amgylcheddol. Rydym yn elusen 'cadwraeth' unigryw wrth i ni ddarparu adferiad bywyd gwyllt ochr yn ochr â ffermio cynhyrchiol a phroffidiol. Mae'r GWCT yn hyrwyddo ffermwyr fel yr ateb, ac wedi ymchwilio a thystiolaethu mewn modd gwyddonol y dulliau ar gyfer adfer bywyd gwyllt heb effeithio'n ormodol ar arferion ffermio a heb effeithio ar broffidioldeb ffermydd. Oherwydd hynny, mae'r gymuned ffermio yn ymddiried ynom ac mae gennym berthnasoedd ardderchog â sefydliadau ffermio UAC, NFU, TFA, NSA a sefydliadau ffermio eraill

Darparodd cyfarwyddwr ein fferm arddangos [Prosiect Allerton GWCT](#), Dr Alastair Leake, hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer dros 160 o aelodau staff DEFRA yn dilyn ymweliadau gan Janet Hughes yn DEFRA (Cyfarwyddwr Rhaglen Ffermio a Chefn Gwlad y Dyfodol). Mae aelodau staff o Lywodraeth Cymru a CNC hefyd wedi ymweld â'r fferm arddangos.

Cynhelir y ym Mhrosiect Allerton gyda chymorth partneriaid fel Nestle & Kellogg's ar Brosiect [The Kellogg's UK Origins](#) (sy'n cynnwys ffermwyr sy'n cynhyrchu grawn ar gyfer y ffatri yn Wrecsam) a Ffermydd Niwtral i'r Hinsawdd H2020

Mae un o brosiect Horizon 2020 yr UE, [AgriCapture CO2](#), yn cynnwys 14 partner consortiwm ar draws 7 gwlad Ewropeaidd sy'n rhedeg rhwng 2021 a 2023 ac yn cwmpasu'r pum egwyddor ar gyfer amaethyddiaeth atgynhyrchiol. Y nod yw datblygu a lansio plattform meddalwedd masnachol sy'n hwyluso dyheadau dim allyriadau ar raddfa fawr, trwy rymuso amaethyddiaeth adfywiol a mesur a monitro atafaelu carbon pridd sy'n deillio o hynny trwy synhwyro o bell (arsylwi lloeren) wedi'i ategu gan samplu'r pridd. Gweledigaeth AgriCapture yw datblygu plattform systematig, cadarn a hyblyg ar gyfer meintioli a hyrwyddo dal carbon yn y pridd. Mae'n caniatáu i ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i ddod yn 'ffermwyr carbon' a'u galluogi i gymryd rhan mewn masnachu carbon, gan ddefnyddio credydau carbon cadarn a dibynadwy a dangos 'ychwanegiad' cryf mewn ymarfer amaethyddol – i sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn yr hinsawdd yn cael eu cyflawni.

Trwy [God Carbon Gwrychoedd Prosiect Allerton GWCT](#) mae potensial enfawr i gynyddu'r carbon sy'n cael ei storio mewn gwrychoedd trwy gau unrhyw dyllau yn y gwrychoedd, adfer hen wrychoedd a chaniatáu i wrychoedd dyfu tuag allan ac i fyny. Yn wir, mae eu strwythur llinol a thri dimensiwn unigryw yn gwneud gwrychoedd yn addas iawn ar gyfer dal carbon; gall dyblu eu uchder a'u lled a chynyddu'r carbon a storir pedair gwaith.

Ers 2014 mae [Cyfrif Mawr Adar Ffermdir GWCT](#), a hyrwyddir gan yr NFU, UAC, NSA ac eraill, yn darparu data ac adborth gwerthfawr i GWCT, NFU, yn ogystal â sefydliadau a llunwyr polisi eraill, ar gyflwr a thueddiadau adar tir fferm ac effeithiolrwydd mesurau cadwraeth. Mae'r cyfrif yn enghraifft addas o sut y gall gwyddoniaeth dinasyddion ymgysylltu a grymuso ffermwyr a rheolwyr tir i wneud gwahaniaeth go iawn i fywyd gwyllt ar eu ffermydd.

Patron: HM King Charles III
CBE, FRAgS Executive: R. Draycott, PhD; S. Evans; A. Hoodless, PhD; A. Leake, PhD, FRAgS, FIAGR; R. Kennedy; J. Payne, MInstF; N. Sheeran, ACMA, CGMA

Chief Executive: Mrs Teresa Dent

Game & Wildlife Conservation Trust is a charitable company limited by guarantee registered in England and Wales under number 05579632, registered charity no: 1112023. Registered office: Burgate Manor, Fordingbridge, Hampshire SP6 1EF

Yn ymateb [GWCT i'r ymgynghoriad ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy](#) rydym yn gwneud awgrymiadau ar gyfer ffyrdd gwell o weithio gyda ffermwyr i gynhyrchu amryw o fanteision. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu bioamrywiaeth a buddion amgylcheddol eraill ochr yn ochr â gweithrediadau ffermio presennol fel bod elfennau'n gweithio o fewn y system ffermio bresennol yn hytrach nag yn lle hynny.

Yng Nghymru, roedd ein [Prosiect Arloesi Ewropeaidd](#) yn cynnwys bwydo ychwanegol a sefydlu cymysgedd o hadau adar gwyllt ar gyfer creu cnydau gorchudd ar gyfer adar tir fferm ar fferm ddefaid ar dir uchel a fferm laeth organig ar dir isel. Roedd y canlyniadau'n syfrdanol, gan gynyddu niferoedd yr adar yn y gaeaf chwe gwaith a dyblu niferoedd adar magu yn y gwanwyn a'r haf. Rydym hefyd wedi datblygu'r cysyniad clwstwr ffermwyr o'r gwaelod i fyny yng Nghymru drwy Gynlluniau Rheoli Cynaliadwy i ddod â ffermwyr at ei gilydd ar raddfa tirwedd a phob un yn gweithio tuag at nodau cyffredin i sicrhau gwell bioamrywiaeth a gwell gwasanaethau ecosystem. Ar ben hynny, rydym ar hyn o bryd yn arwain prosiect cydweithredol Cymru-gyfan o'r enw [Cysylltu Gylfinir Cymru](#) gyda'r nod o atal y dirywiad yn niferoedd o'r gylfinir Cymreig.

Roedd prosiect arall yn cynnwys ffermwyr llaeth yn bennaf a dderbyniodd uned bwydo adar a hadau dros un gaeaf a arweiniodd atynt yn canolbwyntio ar gadwraeth bywyd gwyllt, llawer am y tro cyntaf. Roedd yn wych gweld y brwdfrydedd a gafwyd ar gyfer y dull syml a hawdd hwn i'w ymgorffori o ran cynyddu nifer yr adar ar y fferm, a sut y dechreuodd hyn sgysiau ehangach am bethau eraill a allai weithio o fewn eu systemau ffermio dwys. Estynnwyd ein dull o'r gwaelod i fyny sy'n cynorthwyo ffermwyr i arwain y broses hefyd i brosiectau cydweithredol. Unwaith eto, tyfodd brwdfrydedd ffermwyr, ac roeddent am barhau â'u gwaith cadwraeth ar raddfa tirwedd pan, yn anffodus, ddaeth yr arian o'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy i ben.

Cysylltom â Menter a Busnes yn 2020 i nodi nad oedd gan yr un o'r 19 fferm arddangos unrhyw ffocws amgylcheddol a chyflwynwyd model iddynt y gellid ymgorffori hyn oddi tanynt, a fabwysiadwyd ganddynt wedyn. Rydym wedi cyflwyno prosiectau Paratoi a Chynllunio arfaethedig (dyhead Cymru ar gyfer Profi a Threialon) ers 2021. Er na ddaeth unrhyw beth o hyn, rydym yn dal i gredu ei bod yn bwysig mynd â ffermwyr ar daith i ddangos sut y gallai elfennau o gynllun yn y dyfodol weithio ac rydym yn dal i fod yn awyddus i gynorthwyo, gan ddefnyddio data yr ydym wedi'i gasglu a threialu dulliau arfaethedig ar gyfer y cynllun newydd.

Gwyddwn fod gan ffermwyr ddiddordeb mewn gwella'r nifer o fywyd gwyllt ar eu ffermydd, ond rydym yn creu mae'n rhaid ei wneud mewn modd sy'n gweddu â rhedeg fferm fel busnes sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn cynnig buddion lluosog. Fel y byddai ffermwyr yn dweud wrthyich, ni allant fod yn wyrdd os ydynt yn y coch.

Hoffem eich cyfarfod ac os yn bosib eich gwahodd i weld y gwaith sy'n cael ei wneud ar ffermydd er mwyn cynyddu bioamrywiaeth a darparu buddion amgylcheddol.

Yn ddiffuant



Sue Evans

Patron: HM King Charles III

Chief Executive: Mrs Teresa Dent
CBE, FRAGS Executive: R. Draycott, PhD; S. Evans; A. Hoodless, PhD; A. Leake, PhD, FRAGS, FIAGM; R. Kennedy; J. Payne, MInstF; N. Sheeran, ACMA, CGMA

Game & Wildlife Conservation Trust is a charitable company limited by guarantee registered in England and Wales under number 05579632, registered charity no: 1112023. Registered office: Burgate Manor, Fordingbridge, Hampshire SP6 1EF